# Adroddiad Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru

Ebrill 2022 – Mawrth 2023

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ..... **3**
- Sefydlu'r Panel ..... 3
- Cylch Gwaith y Panel ..... 4

**Gweithrediad y Panel** ..... **5**
- Aelodaeth ..... 5
- Rôl yr Aelodau ..... 5
- Cefnogi Gweithrediad y Panel ..... 6
- Gorfodi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol ..... 7

**Crynodeb o Faterion sy'n Effeithio ar Amaethyddiaeth** ..... **8**

**Cyfarfodydd y Panel** ..... **9**

**Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol (Cymru)** ..... **13**
- Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022 ..... 13
- Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022 ..... 13
- Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023 ..... 14

**Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant** ..... **15**

**Atodiad 1** ..... **16**
- Y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru – Aelodaeth ..... 16

**Atodiad 2** ..... **16**
- Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant – Aelodaeth ..... 16

**Atodiad 3** ..... **17**
- Dolenni i Ddeddfwriaeth ..... 17

## Cyflwyniad

Mae'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru yn gorff annibynnol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar drefniadau'r Isafswm Cyflog Amaethyddol a thelerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Mae hefyd yn hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, datblygu gweithlu â sgiliau priodol ac yn rhoi cyngor ychwanegol i Weinidogion yn ôl y gofyn.

Mae’r cyfraddau tâl a lwfansau isaf a thelerau ac amodau gofynnol eraill y mae gan weithwyr amaethyddol hawl iddynt yn ôl y gyfraith i’w gweld yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) (“y Gorchymyn”).

Bob blwyddyn, mae'r Panel yn adolygu trefniadau'r Isafswm Cyflog Amaethyddol (“AMW”), a darpariaethau eraill y Gorchymyn, yn cynnig newidiadau ac yn ymgynghori ar ei gynigion cyn eu cyflwyno ar ffurf drafft i Weinidogion Cymru eu hystyried.

Wrth wneud ei benderfyniadau, mae'r Panel yn defnyddio ei arbenigedd ac yn ystyried yr amodau economaidd yn y diwydiant ar y pryd, yn ogystal ag unrhyw ofynion cyfreithiol (megis yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol). Mae hyn yn sicrhau bod gweithwyr amaethyddol yn cael isafswm cyflog, lwfansau a thelerau cyflogaeth teg, gan gyfrannu ymhellach at agenda trechu tlodi Llywodraeth Cymru drwy ddiogelu incwm aelwydydd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

Ar ôl ei gymeradwyo gan y Senedd, mae gan y Gorchymyn awdurdod cyfreithiol yng Nghymru.

Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Undeb Unite a thri aelod annibynnol (gan gynnwys y Cadeirydd).

Mae is-adran nawdd Llywodraeth Cymru yn darparu swyddogaeth ysgrifenyddol y Panel, ac mae cwmni cyfreithiol allanol yn drafftio'r gorchmynion cyflogau ac yn cynghori'r Panel ar unrhyw faterion cyfreithiol cysylltiedig eraill.

Dyma'r pedwerydd Adroddiad ar gynnydd a gweithrediad Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023.

Mae canllawiau ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr, manylion y lefelau tâl a lwfans presennol a'r telerau ac amodau gofynnol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/panel-cynghori-amaethyddiaeth-cymru/y-ddeddfwriaeth-ar-canllawiau

## Sefydlu'r Panel

Sefydlwyd Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (“y Panel”) o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”). Daeth Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 (“y Gorchymyn Sefydlu”) i rym ar 1 Ebrill 2016.

## Cylch Gwaith y Panel

Yn unol â Deddf 2014, mae gan y Panel gylch gwaith statudol i:

- ddrafftio gorchmynion cyflogau amaethyddol i bennu'r cyfraddau tâl a lwfansau isaf teg ar gyfer gweithwyr amaethyddol, ymgynghori ar orchmynion o'r fath, a'u cyflwyno ar ffurf drafft i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo;
- hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth; a
- darparu cyngor i Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol ar faterion sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru.

Yn unol â'r Gorchymyn Sefydlu, mae gan y Panel y cyfrifoldeb i:

- bennu ei weithdrefnau ei hun a gweithdrefnau ei is-bwyllgorau;
- sefydlu is-bwyllgorau eraill, yn ogystal â'r Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant, fel y bo'n briodol; a
- chael cyngor arbenigol fel yr ystyrir yn angenrheidiol.

Gall Gweinidogion Cymru bennu swyddogaethau pellach ar gyfer y Panel.

Mae talu cyfraddau tâl isaf a thâl gwyliau yn orfodadwy yn gyfreithiol gan Lywodraeth Cymru, sydd â dyletswydd hefyd i ymchwilio i gwynion a godir am ddiffyg cydymffurfiaeth â'r darpariaethau hyn.

## Gweithrediad y Panel

Mae Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

## Aelodaeth

Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i aelodaeth y Panel adlewyrchu buddiannau'r sector amaethyddol yn ddigonol ac i'r aelodau feddu ar y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Mae'r Panel yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig, a thri aelod annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r strwythur yn seiliedig ar ganlyniad ymgynghoriad cyhoeddus a mewnbwn gan randdeiliaid allweddol.

Mae'r Panel yn cynnwys 7 aelod:

- Cadeirydd annibynnol;
- dau aelod annibynnol sydd ag arbenigedd perthnasol;
- dau gynrychiolydd o'r undeb UNITE;
- un cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru (FUW); ac
- un cynrychiolydd o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru).

Cafodd yr aelodau annibynnol eu dewis drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus a'u penodi gan Weinidogion Cymru. Mae aelodau cynrychiadol yn cael eu henwebu gan eu priod sefydliadau.

Cyfnod aelodau annibynnol a chynrychiadol yn y swydd yw pedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o gael eu hailbenodi am hyd at uchafswm o wyth mlynedd.

Mae gan NFU Cymru, FUW ac UNITE gynrychiolaeth warantedig ar y Panel er mwyn sicrhau cydbwysedd buddiannau. Mae manylion aelodaeth y Panel yn **Atodiad 1**.

## Rôl yr Aelodau

Rôl yr aelodau cynrychiadol yw defnyddio eu harbenigedd wrth gynrychioli buddiannau eu haelodau ar y materion allweddol yn nhrafodaethau'r Panel a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Prif rôl yr aelodau annibynnol yw cyfrannu eu barn arbenigol mewn trafodaethau ar faterion allweddol a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

Mae gan holl aelodau'r Panel gyfrifoldeb allweddol i sicrhau bod Gorchmynion drafft teg a rhesymol yn cael eu cyflwyno ar faterion sy'n ymwneud â lefelau cyflog isaf a thelerau ac amodau perthnasol ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru fel y'u diffinnir yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

## Cefnogi Gweithrediad y Panel

Cefnogir gweithrediad y Panel gan ysgrifenyddiaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyfateb i 0.8 o aelod staff llawn amser ym Mand Rheoli Tri. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn hwyluso cyfarfodydd, yn paratoi papurau, yn cymryd cofnodion cyfarfodydd ac yn cyflawni tasgau eraill fel sy'n ofynnol gan y Panel. Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn mynd i holl gyfarfodydd y Panel hefyd.

Yn ogystal, mae cwmni cyfreithiol allanol yn cynghori'r Panel ar faterion cyfreithiol sy'n codi ac yn drafftio'r Gorchmynion.

Mae platfform ar-lein y Panel yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan ysgrifenyddiaeth y Panel:

https://www.llyw.cymru/y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-cymru

Nid oes gan y Panel ei gyllideb ei hun ond gall ddefnyddio cronfeydd a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid cyfyngedig i gomisiynu astudiaethau ac ymchwil ar feysydd penodol y mae'r Panel am eu hystyried i gefnogi ei broses o wneud penderfyniadau.

Cyfanswm y gwariant ar gyfer gweithrediad y Panel yn 2022-2023, sy'n cynnwys treuliau'r Panel a chost cyngor cyfreithiol, oedd £36,791.

Dylai unrhyw ymholiadau, cwynion neu bryderon am y Panel neu'r Gorchmynion gael eu cyflwyno i:

E-bost: SLMEnquiries@llyw.cymru

Post: Rheolwr y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth
Llywodraeth Cymru,
Neuadd y Sir
Spa Road East
Llandrindod
Powys, LD1 5HA

## Gorfodi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol

Llywodraeth Cymru sy'n gorfodi cyfraddau tâl isaf a thâl gwyliau.

Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin ag ymholiadau a chwynion gan gyflogwyr a gweithwyr.

Gellir rhoi gwybod am achosion posibl o ddiffyg cydymffurfiaeth yn y ffyrdd canlynol:

Llinell gymorth: 0300 060 4400

E-bost: SLMenquiries@llyw.cymru


Post: Tîm Isafswm Cyflog Amaethyddol
Swyddfa Llywodraeth Cymru,
Neuadd y Sir,
Spa Road East,
Llandrindod,
Powys, LD1 5HA

Mae pob cwyn yn cael ei thrin yn gyfrinachol.

## Crynodeb o Faterion sy'n Effeithio ar Amaethyddiaeth

- Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i achosi ansicrwydd i'r sector amaethyddol, gan gynnwys newidiadau mewn cytundebau masnach a rheoliadau. Mae newidiadau sy'n gysylltiedig â Brexit i bolisïau mewnfudo wedi cyfrannu at y pryderon parhaus ynghylch argaeledd gweithwyr tymhorol a medrus hefyd, yn enwedig o wledydd eraill yr UE. Cynhaliwyd ymgyrchoedd i hyrwyddo swyddi yn y sector fel opsiwn gyrfa deniadol a gwerth chweil mewn ymgais i gynyddu nifer y gweithwyr domestig sy'n ymuno â'r diwydiant – ar hyn o bryd, o'r rhai sy'n ennill gradd mewn amaethyddiaeth, dim ond 10 - 13% sy'n ymuno â byd ffermio. Bydd dibyniaeth ar weithlu brwdfrydig sydd wedi'i hyfforddi'n dda yn parhau i fod yn hollbwysig.

- Mae ymosodiad Rwsia ar Wcráin wedi gwaethygu'r effeithiau sydd eisoes yn sylweddol ar brisiau tanwydd, bwyd anifeiliaid a gwrtaith. Er bod chwyddiant mewnbynnau amaethyddol ("*Agflation*") wedi gostwng ers ei uchafbwynt o 28.4% ym mis Gorffennaf 2022, mae prisiau amaethyddol a bwyd yn sylweddol uwch nag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl. Mae prisiau mewnbwn amaethyddol 24% yn uwch, mae allbynnau amaethyddol15% yn uwch ac mae prisiau bwyd wedi cynyddu 29% yn y cyfnod hwnnw[1].




*Ffynonellau: ONS, Defra a Andersons*

- Mae'r sector amaethyddol yn agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd hefyd. Mae tymheredd cynyddol, patrymau glawiad sy'n newid ac amlder cynyddol digwyddiadau tywydd eithafol (megis sychder neu lifogydd) i gyd yn amharu ar gynhyrchu cnydau, yn effeithio ar dda byw ac ar gymunedau gwledig.

- Mae ymadael â'r UE a diwedd y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn newid sylfaenol i bolisi amaethyddol a chyllid cysylltiedig. Bydd cynlluniau cymorth ariannol newydd, megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn rhoi mwy o bwyslais ar wobr am nwyddau cyhoeddus, gan gynnwys gweithredu i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

- Mae datblygiadau mewn technoleg megis amaethyddiaeth fanwl ac awtomeiddio, er bod y

[1] https://theandersonscentre.co.uk/agflation-update-june-2023/

potensial ganddynt i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, yn gofyn am fuddsoddiad a hyfforddiant sylweddol.

## Cyfarfodydd y Panel

Cyfarfu’r Panel saith gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Cafwyd pedwar cyfarfod yn y cnawd, dau ar-lein drwy Microsoft Teams a'r llall mewn fformat hybrid (cyfarfod rhif 36).

Cyhoeddir crynodebau'r cyfarfodydd a'r Adroddiadau Blynyddol ar dudalen we'r Panel:

https://www.llyw.cymru/cyfarfodydd-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-cymru

https://www.llyw.cymru/adroddiadau-blynyddol-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-cymru

## Cyfarfod Rhif 34 (5 Ebrill 2022)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-5-ebrill-2022

Trafododd y Panel y canlynol:

- Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd dyddiedig 9 Mawrth yn gofyn i'r Panel roi ystyriaeth ffurfiol i adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg[2] a'r ddau argymhelliad sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol a'r Panel.
- Llwybr mewnfudo Gweithiwr Tymhorol Dros Dro T5 ar gyfer gweithwyr garddwriaeth (gan gynnwys coedwigaeth hefyd).
- Trosolwg o broses orfodi'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol.
- Llythyr gan Cynnal Cymru ynglŷn â'r Grŵp Llywio Cyflog Byw ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin.
- Y newyddion diweddaraf am Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022 a Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022(2).

## Cyfarfod Rhif 35 (31 Mai 2022)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-31-mai-2022

Trafododd y Panel y canlynol:

- Cyfarfod y Cadeirydd gyda Cynnal Cymru ynghylch y Cyflog Byw Gwirioneddol a llythyr pellach a dderbyniwyd gan Weinidog Gogledd Cymru, Materion Gwledig a'r Trefnydd ynghylch argymhellion adroddiad Gwaith Teg Cymru a dargedwyd yn benodol at y Panel.
- Cyfarfod diweddaraf yr is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant.
- Adroddiad cynnydd ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022(2).

[2] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf

- Y llinell amser ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023.

## Cyfarfod Rhif 36 (26 Gorffennaf 2022)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-26-gorffennaf-2022

Trafododd y Panel y canlynol:

- Diweddariad ar adroddiad y Panel ynghylch y Cyflog Byw Gwirioneddol mewn amaethyddiaeth.
- Adroddiad cynnydd ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022(2).
- Crynhoi a chasglu data sy'n berthnasol i'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol.
- Y cadarnhad o'r llinell amser ar gyfer Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023.

## Cyfarfod Rhif 37 (5 a 6 Medi 2022)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-5-medi-2022

**Diwrnod 1**

Trafododd y Panel y canlynol:

- Llythyrau o ddiolch i Will Prichard a Brian Troake am eu gwaith ar y Panel.
- Opsiynau ar gyfer casglu data.
- Cyfraddau tâl arfaethedig a newidiadau i delerau ac amodau mewn perthynas â'r Gorchymyn Cyflogau drafft ar gyfer 2023.

**Diwrnod 2**

Rhoddodd Neil Surman, (Dirprwy Gyfarwyddwr Partneriaeth Gymdeithasol – Llywodraeth Cymru) gyflwyniad i'r Panel ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Nod y Bil yw darparu fframwaith i wella lles pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy waith partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Cafwyd sesiwn holi ac ateb i ddilyn.

Trafododd y Panel y canlynol:

- Cyfraddau tâl arfaethedig a newidiadau i delerau ac amodau mewn perthynas â'r Gorchymyn Cyflogau drafft ar gyfer 2023 (parhad o Ddiwrnod 1).
- Y Polisi ynghylch daliadau trawsffiniol a chymhwysedd y Gorchymyn.
- Y digwyddiad ymwybyddiaeth strategol a drefnwyd ar y cyd â Cyswllt Ffermio ar gyfer yr is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant.
- Diweddariad ar adroddiad y Panel ynghylch y Cyflog Byw Gwirioneddol mewn amaethyddiaeth.
- Tâl i aelodau'r Panel.

## Cyfarfod Rhif 38 (25 Hydref 2022)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-25-hydref-2022

Rhoddodd James Owen (Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Rheoli Tir – Llywodraeth Cymru) gyflwyniad ar y Bil Amaethyddiaeth, a oedd yn destun craffu gan y Senedd ar ôl cael ei gyflwyno gan y Gweinidog ar 26 Medi 2022.

Rhoddodd Anthony Cody (Rheolwr Deddfwriaeth, Deddf Rhentu Cartrefi – Llywodraeth Cymru) gyflwyniad ar y newidiadau i Feddianaethau Amaethyddol Sicr - o 1 Rhagfyr 2022.

Cafwyd sesiynau holi ac ateb i ddilyn y ddau gyflwyniad.

Trafododd y Panel y canlynol:
- Ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol.
- Adroddiad gan yr is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant ar y digwyddiad ymwybyddiaeth strategol a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2022.
- Diweddariad ar adroddiad y Panel ynghylch y Cyflog Byw Gwirioneddol mewn amaethyddiaeth.
- Diweddariad ynghylch opsiynau ar gasglu data – mae Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i'r posibilrwydd o fanteisio ar wasanaethau myfyriwr PhD ar leoliad i gael golwg ar y mater hwn fel prosiect hunangynhwysol.
- Trosolwg o'r ymholiadau a dderbyniwyd ynghylch y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol a'r ymatebion a ddarparwyd.

## Cyfarfod Rhif 39 (17 Ionawr 2023)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-17-ionawr-2023-html

Croesawodd y Cadeirydd Dave Thomas i'r cyfarfod, Pennaeth newydd y Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth gyda Llywodraeth Cymru.

Trafododd y Panel y canlynol:

- Adroddiad cynnydd ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023, gan gynnwys y gwelliant arfaethedig i Erthygl 13 ynghylch darpariaethau goramser.
- Cynnal adolygiad o holl broses y Gorchymyn, gan gynnwys Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016.
- Diweddariad ar ddata cyflogaeth amaethyddol, gan gynnwys papur manylebau drafft ynghylch lleoliad myfyriwr PhD.
- Fersiwn ddrafft o Adroddiad Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru 2018 – 2022.
- Drafft o ymateb y Panel i'r Gweinidog ynghylch yr adroddiad gan y Comisiwn Gwaith Teg.
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol cyn pen tair blynedd.

## Cyfarfod Rhif 40 (28 Chwefror 2023)

https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-28-chwefror-2023

Trafododd y Panel y canlynol:

- Diweddariad ynghylch cyhoeddiadau garddwriaethol a choedwigaeth perthnasol, gyda gwybodaeth am y Gorchymyn Cyflogau.
- Diweddariad ynghylch y lleoliad PhD i weithio ar y prosiect data cyflogaeth amaethyddol.
- Adroddiad cynnydd ar Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023.
- Diweddariad ar Adroddiad Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru 2018 – 2022.
- Cwmpas adolygiad mewnol dau gam o Arferion a Phrosesau'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru.
- Y cynigion a'r opsiynau cychwynnol ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ynghylch y Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr amaethyddol.
- Y calendr cyfarfodydd drafft ar gyfer 2023.

## Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol (Cymru)

### Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022

https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2022/417/contents/made/welsh

Arweiniodd rhaglen waith y Panel i foderneiddio a symleiddio'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol at newidiadau mawr. Arweiniodd natur dechnegol a chyfreithiol y newidiadau at oedi yng Ngorchymyn 2021 yn dod i rym. O ganlyniad, daeth Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022, a ailenwyd, i rym ar 22 Ebrill 2022 ond roedd ganddo effaith ôl-weithredol o 1 Ebrill 2021.

Roedd hyn yn golygu y gall rhai gweithwyr fod wedi bod â hawl i gael ôl-daliad, yn enwedig y gweithwyr amaethyddol hynny a fyddai wedi disgwyl cynnydd yn eu cyflog fesul awr o 1 Ebrill 2021 ymlaen, fel y cynigiwyd yn ymgynghoriad cyhoeddus y Panel yn ystod hydref 2020.

Disodlodd y Gorchymyn Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020 a chyflwynodd newidiadau eang i'r fframwaith Isafswm Cyflog Amaethyddol, gan gynnwys:

- Strwythur graddio newydd ar gyfer gweithwyr amaethyddol sy'n ymwneud â lefel profiad, cymwysterau a chyfrifoldebau gweithiwr.
- Cynnydd yn y cyfraddau isafswm cyflog a rhai lwfansau.
- Diogelu cyflogau gweithwyr amaethyddol a fyddai fel arall yn dioddef gostyngiad mewn cyflog o ganlyniad i newid i’r strwythur graddio newydd.
- Diweddariadau i’r rhestr o gymwysterau sy’n berthnasol i’r strwythur graddio newydd.
- Gwell darpariaethau absenoldeb profedigaeth rhiant.

Arhosodd y cyfraddau tâl a'r lwfansau statudol a bennwyd gan y Gorchymyn mewn grym nes i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol newydd gael ei wneud.

Cafodd y “Canllawiau i Weithwyr a Chyflogwyr” sy'n cyd-fynd â’r Gorchymyn eu diweddaru a'u darparu ar-lein ac ar ffurf copi caled. Cyhoeddwyd adrannau ychwanegol a chanllawiau annibynnol mewn perthynas â'r strwythur graddio newydd a chyfrifo ôl-daliadau.

### Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022

https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2022/794/contents/welsh

O ganlyniad i'r oedi yn y Gorchymyn blaenorol, daeth Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) i rym ar 6 Awst 2022, ond roedd ganddo effaith ôl-weithredol o 1 Ebrill 2022.

Roedd hyn eto'n golygu y gall rhai gweithwyr fod wedi bod â hawl i gael ôl-daliad, yn enwedig y gweithwyr amaethyddol hynny a fyddai wedi disgwyl cynnydd yn eu cyflog fesul awr o 1 Ebrill 2022 ymlaen, fel y cynigiwyd yn ymgynghoriad cyhoeddus y Panel ym mis Ionawr 2022.

Disodlodd y Gorchymyn Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022 a:

- chynyddu'r cyfraddau isafswm cyflog a rhai lwfansau;
- ychwanegu cynnwys seibiannau gorffwys yn y Gorchymyn;
- parhau i ddiogelu cyflogau gweithwyr amaethyddol a fyddai fel arall yn dioddef gostyngiad mewn cyflog o ganlyniad i newidiadau blaenorol i’r strwythur graddio; ac
- alinio'r bandiau oedran prentisiaeth â'r bandiau o dan yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol (NMW/NLW).

Arhosodd y cyfraddau tâl a'r lwfansau statudol a bennwyd gan y Gorchymyn mewn grym nes i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol newydd gael ei wneud.

Diweddarwyd y “Canllawiau i Weithwyr a Chyflogwyr” (gan gynnwys y canllawiau mewn perthynas â'r strwythur graddio newydd a chyfrifo ôl-daliadau) ac mae ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled.

## Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2023/260/contents/made/welsh

Ar ôl yr oedi yn y Gorchmynion blaenorol, gweithiodd y Panel gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Gorchymyn 2023 yn dod i rym ar amser. Cafodd y Gorchymyn ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol a daeth i rym ar 1 Ebrill 2023.

Byddai'r Gorchymyn yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022 ac yn:

- cynyddu'r cyfraddau isafswm cyflog a lwfansau;
- diwygio'r geiriad ynghylch taliadau goramser i weithwyr amaethyddol;
- sicrhau cynnwys gweithwyr asiantaeth a gweithwyr a gyflogir gan feistri gangiau nad oes ganddynt gontract gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r cyflogwr o reidrwydd;
- diwygio'r geiriad ynghylch cyfnodau gwyliau blynyddol; a
- newid cyfrifiad tâl gwyliau ar gyfer gweithwyr ag oriau amrywiol.
- Parhaodd hefyd i ddiogelu cyflogau gweithwyr amaethyddol a fyddai fel arall yn dioddef gostyngiad mewn cyflog o ganlyniad i newidiadau blaenorol i’r strwythur graddio.

Bydd y cyfraddau tâl a lwfansau statudol a bennwyd gan y Gorchymyn yn aros mewn grym nes i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol newydd gael ei wneud (neu hyd nes y cânt eu disodli gan newidiadau i’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol).

Cafodd y “Canllawiau i Weithwyr a Chyflogwyr” sy'n cyd-fynd â’r Gorchymyn eu diweddaru a'u darparu ar-lein ac ar ffurf copi caled.

## Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant

Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn galluogi'r Panel i benodi is-bwyllgorau ac yn gosod dyletswydd statudol i sefydlu Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant parhaol. Mae yna ddyletswydd statudol i gynnwys Lantra a Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru fel aelodau. Mae'n cael ei gadeirio gan aelod annibynnol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr, yn ogystal ag arbenigwyr ym maes datblygu sgiliau. Mae manylion aelodaeth yr is-bwyllgor yn **Atodiad 2**.

Cyfarfu'r is-bwyllgor dair gwaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Y prif ffocws fu ailsefydlu'r is-bwyllgor a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hyfforddiant, sgiliau a datblygiad gyda'r diwydiant amaethyddol.

Ar y cyd â Cyswllt Ffermio, trefnwyd a chynhaliwyd digwyddiad ymwybyddiaeth strategol ym mis Hydref 2022. Nod y digwyddiad oedd ystyried a choladu themâu allweddol yn ymwneud â hyfforddiant, sgiliau a datblygiad ar draws y sector. Dyma oedd y prif feysydd trafod:

- Beth sydd ei angen ar y sector i ddiwallu anghenion Polisi Amaethyddiaeth a Busnes yn y dyfodol?
- Beth sydd angen i ni gynllunio ar ei gyfer i'r dyfodol?
- Beth sydd ei angen arnom i oroesi o ran sgiliau?

Cafwyd cynrychiolaeth dda o bob rhan o'r sector amaethyddol yn y digwyddiad.

Yn dilyn y digwyddiad, trafododd yr is-bwyllgor y camau nesaf tuag at ddatblygu strategaeth ar gyfer sgiliau, hyfforddiant a datblygiad ar gyfer y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru o fewn y deuddeg mis nesaf.

Cytunwyd y byddai'r is-bwyllgor yn cynnal “Galwad am Dystiolaeth” fel cam cychwynnol. Byddai'r union nodau a chwmpas yn cael eu cytuno drwy drafodaeth bellach yn ddiweddarach yn 2023. Yna, gellid adolygu'r dystiolaeth a gellid cynnal ymweliadau/sgyrsiau unigol wedi'u targedu i ddilyn.

## Atodiad 1

## Y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru – Aelodaeth Bresennol

| Enw | Swydd / Cynrychiolydd |
|---|---|
| Dr Nerys Llewelyn Jones | Cadeirydd Annibynnol |
| Janatha Stout | Aelod Annibynnol (Addysg) |
| Stephen Hughson | Aelod Annibynnol (Amaethyddiaeth) |
| Brian Troake | Undeb Unite (tan fis Awst 2022) |
| Joanne Galazka | Undeb Unite (o fis Awst 2022) |
| Ivan Monckton | Undeb Unite |
| Darren Williams | Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| Will Prichard | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) (tan fis Gorffennaf 2022) |
| Simon Davies | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) (o fis Hydref 2022) |

Cylch Gorchwyl ar gyfer Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/panel-cynghori-amaethyddiaeth-cymru/cylch-gorchwyl

## Atodiad 2

## Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant Parhaol – Aelodaeth Bresennol

| Enw | Swydd / Cynrychiolydd |
|---|---|
| Dr Nerys Llewelyn Jones | Cadeirydd Annibynnol |
| Janatha Stout | Aelod Annibynnol (Addysg) |
| Stephen Hughson | Aelod Annibynnol (Amaethyddiaeth) |
| Brian Troake | Undeb Unite (tan fis Awst 2022) |
| Joanne Galazka | Undeb Unite (o fis Awst 2022) |
| Ivan Monckton | Undeb Unite |
| Alex Higgs | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) |
| Alun Elidyr Edwards | Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| Kevin Thomas | Lantra |
| Oherwydd ad-drefnu, nid oes cynrychiolydd ar gyfer CFfI Cymru ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa hon wrthi'n cael ei datrys. | CFfI Cymru |

Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-Bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant:
https://www.llyw.cymru/y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth/cylch-gorchwyl-bwyllgor

# Atodiad 3

## Dolenni i Ddeddfwriaeth

### Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/6/welsh

Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaethau ar gyfer:

- sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru
- gwneud gorchmynion sy'n gosod y telerau ac amodau ar gyfer pobl sy'n cael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth yng Nghymru (gweithwyr amaethyddol)
- gorfodi telerau ac amodau o'r fath.

### Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Parhau i Gael Effaith) 2018

https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/515/made/welsh

Effaith adran 14(1) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yw y byddai'r Ddeddf yn dod i ben ar 30 Gorffennaf 2018, oni bai bod gorchymyn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 14(2) yn darparu bod y Ddeddf i barhau i gael effaith. Mae'r Gorchymyn hwn yn orchymyn o'r fath ac yn darparu bod y Ddeddf yn parhau i gael effaith.

### Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016

https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/255/made/welsh

Mae Gorchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 yn sefydlu'r Panel fel corff cynghori annibynnol i Weinidogion Cymru. Swyddogaethau'r Panel yw hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, paratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol ar ffurf drafft, ymgynghori ar orchmynion o'r fath i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru a chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru.